# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

**2022/23**

**Arbed Dyfodol: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol.**

## 1. Aelodaeth y grŵp a deiliaid swyddi

Cadeirydd: Jayne Bryant AS

Rhennir y cyfrifoldeb am ysgrifenyddiaeth y grŵp rhwng NSPCC Cymru, Stop it Now! Cymru, Survivors' Trust Cymru, Stepping Stones Gogledd Cymru a Chanolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru

## 2. Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

**Cyfarfod 1.**

***Dyddiad y cyfarfod:*** *26 Medi 2022*

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***:

**Pwyntiau allweddol a nodwyd gan y siaradwyr**

**Rhiannon Faye McDonald, Sefydliad Marie Collins a Grŵp Arbenigwyr drwy Brofiad Bywyd y prosiect Dragon-Shield ym Mhrifysgol Abertawe (LEEG) – Pam a sut i brif ffrydio arbenigedd drwy brofiad bywyd ym maes camfanteisio ar blant a'u cam-drin yn rhywiol ar-lein, a lansio animeiddiad o dan y teitl 'Strong at the Broken Places' ac adroddiad cysylltiedig**

- Mae angen prif ffrydio grwpiau arbenigwyr drwy brofiad bywyd yn y broses o ddatblygu polisi. Mae Sefydliad Marie Collins yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu grŵp eiriolaeth o ran profiad bywyd, ochr yn ochr â'r grŵp eiriolaeth arfaethedig ar gyfer pobl ifanc.
- Mae'n bwysig bod lleisiau goroeswyr yn cael eu clywed, gan fod ganddynt gymaint i'w ddysgu i lunwyr polisi.
- Rhaid i drefniadau cyfranogi sicrhau nad yw goroeswyr yn dioddef rhagor o niwed wrth iddynt gefnogi'r broses o ddatblygu polisi.
- Mae'n hanfodol bod cylch adborth cyson yn cael ei greu rhwng llunwyr polisi â grwpiau arbenigwyr drwy brofiad bywyd, ynghylch sut mae profiadau'r grwpiau dan sylw yn cael eu defnyddio ac yn cael effaith.
- Lansiodd Dragon Shield a'r Grŵp Arbenigwyr drwy Brofiad Bywyd animeiddiad, sef 'Strong at the Broken Places', ynghyd ag adroddiad cysylltiedig. Dylech gysylltu â Dragon-S yn uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth project.dragons@swansea.ac.uk

**Datrysiadau ar gyfer pobl ifanc – Hyrwyddo profiadau pobl ifanc – Senedd Ieuenctid y DU**

- 'Gall unrhyw un fod yn gyflawnwr, o ddieithriaid i'r bobl yr ydym yn ymddiried fwyaf ynddynt.'

- Mae'n rhaid i ni herio'r broses o normaleiddio cam-drin rhywiol rhwng cyfoedion, a herio termau fel 'peidiwch â chymryd sylw' neu 'bechgyn yw bechgyn'.
- Galwodd y grŵp am y camau a ganlyn:
- Rhaid addysgu'r cysyniad o ganiatâd ymhlith yr holl ddysgwr mewn ysgolion
- Dylid darparu hyfforddiant i staff ysgol ynghylch sut i adnabod y niwed y mae pobl ifanc yn ei brofi
- Rhaid herio'r stigma sy'n gysylltiedig â'r profiad o gael eich cam-drin
- Dylid darparu gwell cymorth ar-lein a chymorth ar apiau i bobl ifanc
- Dylai fod yn orfodol i apiau ddarparu cymorth i bobl ifanc sy'n cael eu niweidio
- Dylai fod yn orfodol i waith cydweithredol ddigwydd ar draws adrannau a sectorau er mwyn creu strategaethau i fynd i'r afael â phroblemau cam-drin ar-lein a cham-drin rhwng cyfoedion.

**Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

- Mae'r materion hyn yn flaenoriaeth drawslywodraethol i Lywodraeth Cymru, ac mae angen lleisiau pobl ifanc i herio'r broses o normaleiddio cam-drin rhwng cyfoedion.
- Roedd yn anodd derbyn y wybodaeth yn adroddiad Estyn ynghylch yr hyn y mae plant a phobl ifanc wedi'i ddioddef.
- Siaradodd y Gweinidog am bwysigrwydd cyfathrebu: sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n hyderus i adrodd am ddigwyddiadau, a bod pwysigrwydd cynnal perthnasoedd diogel, cyfartal yn cael ei gyfleu i bobl ifanc yn gyfnewid am hynny. Bwriedir cynnal ymchwil Cymru gyfan er mwyn deall dewisiadau pobl ifanc o ran sut y dylid cyfathrebu â hwy. Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i wrando a gweithredu.
- Ni ddylid disgwyl dioddef niwed mewn mannau ar-lein, ac mae addysg yn chwarae rhan hanfodol yn y cyd-destun hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr her a gynrychiolir gan niwed ar-lein mewn ysgolion, ond dylai staff ymdrin â niwed ar-lein fel unrhyw bryder diogelu arall.
- Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu hyfforddiant i staff ysgol ynghylch aflonyddu rhywiol ar-lein.
- Bydd panel cynghori plant a phobl ifanc ar gyfer cydnerthedd digidol yn llywio cyfeiriad gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.
- Mae newidiadau yn yr arfaeth i ganllawiau gwrth-fwlio er mwyn adlewyrchu aflonyddu rhwng cyfoedion, gan gynnwys bwlio plant a phobl ifanc LHDTC+. Bydd hyn yn cynnwys cadw cofnodion trylwyr o achosion o aflonyddu rhwng cyfoedion a bwlio pobl LGBTQ+.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ganllawiau i ysgolion ynghylch pobl drawsryweddol.

**Cyfarfod 2.**

***Dyddiad y cyfarfod:*** 15 Rhagfyr 2022

***Yn bresennol:***

Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS
Jayne Bryant AS (Cadeirydd)
Elinor Puzey, NSPCC Cymru
Claire Sharp, Plant yng Nghymru
Claire Short, Stop it Now! Cymru
Sarah Cooper - Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio - Llywodraeth Cymru
Ross Walmsley, NSPCC Cymru
Sarah Walton-Jones, Stop it Now! Cymru
Cecile Gwilym, NSPCC Cymru
Philip Walker, Survivors Trust
Daisy Williams, Stop it Now! Cymru

Gillian Jones, Stop it Now! Cymru
Nici Evans, Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol
Linda Grace (Gwestai)
Saul Cooke-Black, NSPCC Cymru
Helen Gordon, Gwent
May Baxter-Thornton (Gwestai)
Debbie Woodroff, Llwybrau Newydd
Felicity Rushton, Heddlu
Amy Bainton, Barnardo's
Katie Stott
Naomi Evans, Heddlu
Amy Jones
Berni Durham-Jones
Fay Maxted, Survivors Trust
Natasha Hankey, Heddlu
Paula Hardy, Heddlu
Kirsty Rees, staff cymorth y Senedd
Sarah Keefe, Heddlu
Hannah Evans-Price, Heddlu
Catrin Simpson (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Iechyd Plant)
Health)
Joanna Williams (Cydweithrediaeth Iechyd GIG
Cymru)
Frances Frost
Faith McCready, Heddlu

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***:

**Pwyntiau allweddol a nodwyd gan y siaradwyr**
Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol – Sylwadau Llywodraeth Cymru ar y cynllun gweithredu cyntaf
action plan

- Cyfle i adlewyrchu ar yr holl waith a wnaed yng Nghymru o ganlyniad i'r cynllun gweithredu cenedlaethol cyntaf ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol. Diolch i'r grŵp trawsbleidiol am ddylanwadu ar y cynllun gweithredu cyntaf.
- Diolch i'r byrddau diogelu ac i'r holl elusennau sy'n rhan o'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd. Diolch arbennig i Dr Sam Clutton, a arweiniodd y gwaith ar y cynllun gweithredu cenedlaethol cyntaf.
- Roedd blaenoriaethau'r cynllun gweithredu cyntaf o dan y tri piler o atal, amddiffyn a chefnogi.
- Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed a bod hyn wedi parhau drwy'r pandemig.
- O ganlyniad i'r cynllun gweithredu cyntaf mae gennym lawer mwy o adnoddau ar gael ac mae'r cyhoedd yn cael gwybodaeth well am gam-drin plant yn rhywiol.
- Mae gwaith wedi'i wneud i rymuso plant eu hunain i adnabod pan fydd rhywun yn meithrin perthynas amhriodol â nhw ar-lein neu'n eu hecsbloetio, ac i ofyn am gymorth.
- Mae archwilio data yn parhau a bydd hyn yn llywio'r ffordd y bydd gwasanaethau yn cael eu cynllunio at y dyfodol.
- Er ei fod yn bwysig dathlu'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu, mae angen cynllun gweithredu newydd, pellgyrhaeddol. Bydd y gwaith yn cael ei lywio gan yr adroddiad cyflawni terfynol ac argymhellion yr ymchwiliad annibynnol ar gam-drin plant yn rhywiol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. Mae argymhellion i'w cael o fewn yr adroddiad terfynol hwnnw ar gyfer Llywodraeth Cymru yn benodol, ac maent yn cael eu hystyried.
- Fel rhan o'r broses ymgynghori byddwn yn siarad ac yn ymgynghori gyda phobl, gan gynnwys pobl ifanc.
- Bydd y gwaith a gafodd ei osod yn y cynllun cyntaf yn parhau wrth ddisgwyl am y cynllun newydd.
- Diolch o galon i'r plant a phobl ifanc yn ogystal â'r goroeswyr sy'n oedolion sydd wedi helpu i lywio ein gwaith.

Elinor Puzey, NSPCC Cymru – lansio adroddiad etifeddiaeth y grŵp trawsbleidiol i'r cynllun gweithredu cyntaf
Mae'r adroddiad etifeddiaeth yn cael ei lywio gan gyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol a chyfarfod bwrdd crwn proffesiynol a gynhaliwyd yng Ngwanwyn
2022.

Mae argymhellion allweddol yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Dylid gwneud hyfforddiant yn rhan o gyrsiau cyn-gymhwyso.
- Dylid gwella'r dull o gasglu data a dylai data fod yn gyfannol.
- Dylai fod croestoriad rhwng gwaith polisi ar gam-drin plant yn rhywiol ac atal trais o fathau eraill, yn ogystal â gwaith cydraddoldeb.
- Dylid cydnabod niwed ar-lein fel risg sylweddol a deinamig.
- Dylid blaenoriaethu mynd i'r afael â cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion.
- Dylai gwaith atal fod yn ganolog, gan gynnwys ymyriadau i bobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd niweidiol.
- Dylai'r gwaith o ariannu gwasanaethau cymorth ac ymateb fod yn gynaliadwy.

Mae'r themâu sydd wedi deillio o'r adroddiad etifeddiaeth yn cynnwys y canlynol:

- Mae ein dealltwriaeth o effaith cam-drin plant yn rhywiol ar rai carfannau o blant yn fylchog - hoffem weld dealltwriaeth o ragfarnau allanol sy'n gallu atal rhai plant rhag gofyn am gymorth.
- Dylai gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant ar y cyrion gael adnoddau i'w cefnogi i ddatgelu achosion o gam-drin rhywiol.
- Dylai hyfforddiant fod yn orfodol. Mae canfyddiadau'n awgrymu bod teimlad o anghysondeb o hyd ymhlith gweithwyr proffesiynol o ran cyfeirio. Dylai'r fframwaith Gofyn a Gweithredu gynnwys sesiwn orfodol ar gam-drin plant yn rhywiol.
- Rydym yn pryderu am ddiffyg cysylltiad rhwng arweinwyr a'r rhai sy'n gweithio ar lawr gwlad oherwydd anghywirdeb wrth gasglu data. Rydym am weld dull mwy cyfannol o gasglu data sy'n cynnwys llinell gymorth a data gwasanaeth yn ogystal â chynlluniau i amddiffyn plant.
- Mae cam-drin rhywiol rhwng cyfoedion wedi cael ei normaleiddio. Rydym yn croesawu gwaith gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun annibynnol i fynd i'r afael â hyn. Ond rydym am weld hyn fel rhan o'r gwaith ehangach ar gam-drin plant yn rhywiol.
- Mae'r risg o niwed ar-lein yn newid o hyd, unwaith eto rhaid i waith ar gam-drin plant yn rhywiol yn y dyfodol fod yn hyblyg i'r risgiau hyn.

Claire Sharp, Plant yng Nghymru - Ymgysylltu â rhanddeiliaid – 'Beth yw'r cam nesaf o ran gwaith ar gam-drin plant
yn rhywiol yng Nghymru?'

- Mae Plant yng Nghymru wedi cael y dasg o ddeall beth sydd wedi gweithio'n dda, a beth sydd heb, ac maent yn ceisio am farn pobl ar draws gwahanol sectorau.
- Byddai'n ddiddorol gwybod pa feysydd sy'n dod i'r amlwg ac sy'n peri pryder i'r sector
- Bydd Plant yng Nghymru yn cynnal grwpiau ffocws ym mis Ionawr a mis Chwefror. Cysylltwch â Claire ar claire.sharp@childreninwales.org.uk

***Cyfarfod 3:***

***Dyddiad y cyfarfod: 6 Mawrth 2023***

***Yn bresennol***

***Siaradwyr***

Jayne Bryant AS - Cadeirydd
Tanya Harrington – Stonewall Cymru
Fateha Ahmed - Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Zoe Williams – Anabledd Dysgu Cymru
Elinor Puzey - NSPCC

***Yn bresennol***

Lucy Blackwood - Llywodraeth Cymru
Catrin Simpson – Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
Claire Sharp - Plant yng Nghymru
Damian Rees - Abertawe
Fflur Emlyn – RASAC Gogledd Cymru
Helen Gordon - Gwent
Joanna Williams - Cydweithrediaeth y GIG
Alex Perry – Llywodraeth Cymru
Kate Rothwell - Llywodraeth Cymru
Dearbhla Sloan - NSPCC
Kelly Turner - Sir Fynwy
Ross Walmsley – NSPCC
Jan Pickles
Helen Middleton - Coleg Caerdydd a'r Fro
Heather Heaney - Sir Fynwy
Faith McCready - Heddlu De Cymru
Catherine Lewis - Heddlu De Cymru
Sarah Keefe - Tarian
Sally Howells - Cyfannol Philip Walker - Survivors Trust

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***:

**Pwyntiau allweddol a nodwyd gan y siaradwyr**

Tanya Harrington – Stonewall Cymru

- Gall ffactorau risg ar gyfer pobl ifanc LGBTQ+ fod yn debyg i garfannau eraill o blant, ond gallant ymddangos yn wahanol
- Efallai y bydd person ifanc yn teimlo bod rhywun yn gwahaniaethu yn ei erbyn oherwydd ei rywioldeb, felly efallai na fydd am ddweud wrth athro neu feddyg am yr achos o gam-drin. Gall camdrinwyr fanteisio ar ymdeimlad yr unigolyn o fod wedi'i ynysu
- Mwy o risg o galedi ariannol a digartrefedd os yw'r berthynas â'r teulu'n anodd neu os nad oes perthynas
- Nid oes gan bobl ifanc LGBTQ+ yr un enghreifftiau o berthnasoedd da, a all arwain at berthnasoedd rhywiol anniogel a chamdriniol.
- Mae gwasanaethau pwysig yn cynnig mynediad cynhwysol at gefnogaeth a hyfforddiant ar sut i fod yn berson diogel
- Cymryd lens groestoriadol, gan drin pobl ifanc fel unigolion yn hytrach na fel rhan o grŵp LGBTQ+ unffurf.

Fateha Ahmed – Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) Cymru

- Ofn stigma, a cholli parch gan y gymuned os bydd cam-drin yn cael ei ddatgelu
- Mae man dall mewn gwasanaethau 'prif ffrwd' o ran deall stigma a chamddealltwriaeth ddiwylliannol cam-drin plant yn rhywiol – sy'n creu rhwystr o ran cael mynediad at wasanaethau a ddarperir

Rhwystrau iaith

- Yn aml yn amharchus trafod rhyw o fewn rhai diwylliannau, a all ei gwneud yn anoddach i blant a phobl ifanc ei ddatgelu
- Mae ymarferwyr sy'n deall rhwystrau diwylliannol yn hanfodol o fewn gwasanaethau cymdeithasol
- Risgiau a rhwystrau arbennig i deuluoedd ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n ofni'r 'amgylchedd gelyniaethus'

Zoe Richards – Anabledd Dysgu Cymru

- Mae rhieni ag anabledd dysgu yn teimlo eu bod dan wyliadwriaeth gyson a all fod yn rhwystr o ran ceisio cymorth ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol
- Mae mamau ag anabledd dysgu yn arbennig o agored i bartneriaid rheibus
- Rhaid i wybodaeth am gam-drin plant yn rhywiol a niwed ar-lein fod yn hygyrch i rieni ag anabledd dysgu
- Mae plant a phobl ifanc ag anabledd dysgu mewn mwy o berygl pan gânt eu 'dadrywioli' a phant nad ydynt yn cael eu haddysgu am berthnasoedd iach
- Bydd gan blant a phobl ifanc ag anabledd fwy o ofalwyr yn eu bywyd, yn enwedig y rhai y mae angen gofal personol arnynt, mae hyn yn creu risg ychwanegol.

Trafodaeth o'r llawr
Arweiniodd Elinor Puzey o NSPCC Cymru drafodaeth gyda'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Mae'r pwyntiau ac argymhellion allweddol yn cynnwys y canlynol:
Hyfforddiant

- Mae'n hanfodol i wasanaethau trais rhywiol arbenigol gael hyfforddiant ar anghenion plant sydd wedi'u gwthio i'r cyrion ac am duedd anymwybodol
- Dylid cefnogi gwasanaethau arbenigol i gael hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol
- Dylid rhoi hyfforddiant i sefydliadau ar lawr gwlad sy'n gweithio gyda phlant ar y cyrion ar sut i adnabod arwyddion cam-drin plant yn rhywiol, sut i siarad amdano a beth i'w wneud pan fydd datgeliad
- Dylai fod gan yr holl hyfforddiant lens groestoriadol. Osgoi grwpio plant ond eu hadnabod fel unigolion a all wynebu gormesau croestoriadol
- Nid yw hyfforddiant ar-lein i weithwyr proffesiynol yn ddigon, a dylai hyfforddiant ar gam-drin plant yn rhywiol gael ei ddarparu wyneb yn wyneb
- Dylai hyfforddiant gael ei lywio gan brofiad bywyd pobl

Gwaith amlasiantaeth

- Dylid cefnogi sefydliadau arbenigol a llawr gwlad yn y sector i weithio gyda phlant mewn ffordd holistaidd
- Mae defnyddio'r cyfieithydd ar y pryd cywir yn hanfodol – dylid sicrhau bod tafodiaith yn ogystal ag iaith yr un fath, ystyried a yw'r cyfieithydd ar y pryd yn briodol ar gyfer y pwnc dan sylw, a yw'r goroeswr yn gyfforddus yn siarad drwy gyfieithydd ar y pryd neu a yw wedi meithrin perthynas â gweithiwr eisoes a fyddai mewn sefyllfa well i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw?

Datblygu'r gweithlu

- Dylai gweithluoedd ystyried sut y gallant fod yn fwy amrywiol yn ddiwylliannol i leihau rhwystrau i fynediad a gwella gweledfedd i gymunedau ymylol
- Gall safonau gwasanaeth gan y Survivor's Trust helpu gwasanaethau arbenigol i ddangos tystiolaeth o'r wybodaeth sydd ganddynt am gefnogi plant ar y cyrion. Mae'r broses asesu hefyd yn cefnogi'r sefydliad i adnabod bylchau mewn gwybodaeth

Data

- Mae set ddata genedlaethol ar gam-drin plant yn hanfodol i gael darlun llawnach o nifer yr achosion, ond mae'n rhaid i'r dull ar gyfer casglu'r data hwn gan blant fod yn ystyriol o drawma
- Mae'r Uned Atal Trais yn creu canolfan casglu data ar gyfer Canolfannu Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru – dylid ystyried pa ffynonellau eraill y gellir eu cynnwys yn hyn (ysgolion, heddlu, llawr gwlad)

# Datganiad Ariannol Blynyddol

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol

Cadeirydd: Jayne Bryant AS
Ysgrifenyddiaeth: NSPCC Cymru, Stop it Now! Wales a The Survivors Trust Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp.** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau.** | | |
| **Buddiannau a gafodd y Grŵp neu'r aelodau unigol gan gyrff allanol.** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |

| | | |
|---|---|---|
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall** | Ni dderbyniwyd unrhyw gymorth ariannol. | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch** | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| | | 0 |
| | **Cyfanswm y gost** | |